YSGOL GYMREAG YSTALYFERA-BRO DUR

Polisi Addysg Cydberthynas a Rhywiol

Athro Dynodedig Diogelu Plant Ystalyfera :	Mrs Delyth Spurway
Athro Dynodedig Diogelu Plant Bro Dur:	Miss Kath Jones
Dirprwy ADDP Ystalyfera:	Mrs Sara Jones/Mr Emyr Evans
	Mrs Angharad Lloyd / Mr Rob Colwell
Dirprwy ADDP Bro Dur:	Miss Sioned Jones
Llywodraethwr Dynodedig Diogelu Plant:	Mrs Sian Moore

Cymeradwywyd gan y Llywodraethwyr 2018

LLofnod (Cadeirydd y Llywodraethwyr): Ionawr 2018

Adolygwyd gan y Llywodraethwyr:

LLofnod (Cadeirydd y Llywodraethwyr): Ionawr 2022

LLofnod (Cadeirydd y Llywodraethwyr): Tachwedd 2022

Mae'r rhaglen Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn Ysgol Gymraeg Ystalyfera Bro Dur wedi'i chynllunio ar y cyd â'r Cod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb. Mae'r Cod hwn yn cynnwys gofynion gorfodol, a nodir yn y crynodeb o'r ddeddfwriaeth o ganllawiau fframwaith Cwricwlwm i Gymru.

Mae'r cynnwys ar gyfer Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb wedi'i osod yng nghyd-destun llinynnau dysgu eang a rhyng-gysylltiedig, sef:

- perthnasoedd a hunaniaeth
- iechyd a lles rhywiol
- grymuso, diogelwch a pharch.

Y nod yw cynorthwyo myfyrwyr i feithrin y sgiliau a'r wybodaeth sy'n briodol i'w hoedran, eu dealltwriaeth a'u datblygiad a'u galluogi i wneud penderfyniadau cyfrifol am eu perthnasoedd, eu hemosiynau, eu hiechyd rhywiol a'u lles.

Bydd ein cwricwlwm yn cael ei ddylunio, ei ddatblygu a'i deilwra i'n dysgwyr, ac rydym wedi ymrwymo i wneud cysylltiadau a datblygu cyd-destunau dilys ar gyfer dysgu ar draws y cwricwlwm.

Bydd y cwricwlwm yn ymdrin â'r themâu canlynol yn Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb:

- perthnasoedd;
- hawliau a thegwch;
- rhyw a rhywioldeb;
- y corff a delwedd y corff;
- iechyd a lles rhywiol;
- trais, diogelwch a chefnogaeth.

bydd y themâu hyn yn cael eu plethu i'r meysydd dysgu a byddant yn gynhwysol ac yn adlewyrchu amrywiaeth. Bydd yn cynnwys dysgu sy'n datblygu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth dysgwyr o wahanol hunaniaethau, safbwyntiau a gwerthoedd ac amrywiaeth o berthnasoedd, rhyw a rhywioldeb, gan gynnwys bywydau LGBTQ+.

Cynnwys sy'n briodol i ddatblygiad dysgwyr

Rydym wedi ymrwymo i sicrhau y bydd ein cwricwlwm Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn briodol i ddysgwyr, gan ystyried ystod o ffactorau gan gynnwys oedran y dysgwr; gwybodaeth ac aeddfedrwydd; unrhyw anghenion dysgu ychwanegol a rhagweld eu datblygiad ffisiolegol ac emosiynol. Bydd Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn briodol i bob dysgwr, ac rydym yn cydnabod y gall anghenion dysgwyr o oedrannau tebyg fod yn wahanol.

Perthnasoedd a hunaniaeth

Mae'r llinyn hwn yn canolbwyntio ar:

- yr ystod o berthnasoedd sydd gan fodau dynol drwy gydol eu bywydau
- sut y gall hunaniaeth gael ei llunio gan ein perthnasoedd a'n rhywioldeb
- pwysigrwydd hawliau dynol o ran sicrhau perthnasoedd iach, diogel a boddhaus mewn cymdeithas gynhwysol.

Bydd dysgwyr yn datblygu'r ddealltwriaeth a'r ymddygiadau a fydd yn eu cefnogi i ddatblygu a chynnal perthnasoedd iach, diogel a chyflawn drwy gydol eu bywydau. Bydd dysgwyr yn cael eu cefnogi i gydnabod a gwerthfawrogi gwahanol fathau o berthnasoedd, gan gynnwys teuluoedd a chyfeillgarwch, yn ogystal â'r amrywiaeth o fewn gwahanol fathau o berthnasoedd, gan gynnwys amrywiaeth LGBTQ+, ac y gall y rhain newid dros amser.

Mae datblygu empathi, tosturi a sgiliau cyfathrebu yn hanfodol i berthnasoedd dysgwyr yn awr a'r berthynas y byddant yn ei ffurfio yn y dyfodol. Bydd hyn hefyd yn cefnogi parch, dealltwriaeth a thriniaeth deg i eraill, beth bynnag fo'u rhyw, rhywioldeb, ffydd neu gred.

Bydd dysgwyr yn datblygu eu hymdeimlad o hunan a'u hymdeimlad o bawb yn unigryw. Byddant yn archwilio sut y gall perthnasoedd, rhyw, atyniad rhamantus a rhywiol a phrofiadau personol lunio a llywio hunaniaeth ac unigoliaeth unigolyn. Bydd hyn yn cefnogi ein dysgwyr i ddeall sut mae hunaniaeth, perthnasoedd a rhywioldeb yn cael eu llywio gan fioleg, technoleg a normau cymdeithasol, diwylliannol a chrefyddol ac y gall y rhain newid dros amser. Drwy ymgysylltu â'r agweddau hyn, bydd ein dysgwyr yn cydnabod ymddygiadau a normau cadarnhaol a niweidiol ac yn meddu ar yr hyder i siarad drostynt eu hunain ac i siarad ac eirioli dros hawliau a pharch pobl eraill.

Mae'r llinyn hwn hefyd yn cydnabod sut y gall hawliau gefnogi a bod yn sail i berthnasoedd teg, parchus, yn ogystal â chymdeithas deg a chynhwysol.

Iechyd a lles rhywiol

Mae'r llinyn hwn yn canolbwyntio ar:

- dysgu am sut mae pethau byw yn tyfu, atgynhyrchu a chael cylch bywyd
- datblygu dealltwriaeth o'r corff dynol, gan gynnwys teimladau pobl am eu cyrff a sut y gellir cynrychioli'r rhain
- y materion iechyd sy'n gysylltiedig â pherthnasoedd a rhywioldeb
- dealltwriaeth o sut mae rhywioldeb ac iechyd rhywiol yn effeithio ar ein lles.

Mewn datblygiad cynnar, mae angen i ddysgwyr brofi cyd-destunau ar gyfer deall pwysigrwydd cynnal iechyd a lles personol, gan gynnwys hylendid, a sut mae'r rhain yn

effeithio arnynt eu hunain ac eraill. Mae hyn yn mynd rhagddo i gymhwyso egwyddorion cyffredinol iechyd a hylendid o fewn iechyd rhywiol.

Wrth i ddysgwyr ddatblygu, bydd addysgu a dysgu yn cynnwys ffocws ar archwilio sut mae newidiadau ffisegol yn cael effaith ar les a pherthnasoedd gan sicrhau cynrychiolaeth o brofiadau a bywydau LGBTQ+. Hefyd, mae dysgu'n canolbwyntio ar les ac amodau mislif a all effeithio ar y system atgenhedlu; yn ogystal â datblygu dealltwriaeth o ganlyniadau posibl y penderfyniadau a wneir mewn perthynas ag iechyd rhywiol a pherthnasoedd.

Bydd y dysgu'n canolbwyntio ar gydnabod amrywiaeth y mathau o gorff dynol, sut mae canfyddiad a dealltwriaeth o'r corff dynol yn cael ei lunio gan gymdeithas, y gyfraith, gwyddoniaeth a thechnoleg ac effaith hyn ar lesiant.

Grymuso, diogelwch a pharch

Mae'r llinyn hwn yn canolbwyntio ar:

- hawliau dysgwyr i ddiogelwch ac amddiffyn a rhyddid rhag niwed a gwahaniaethu
- sut a ble i geisio gwybodaeth, cymorth a chefnogaeth
- sut i gefnogi ac eirioli dros hawliau, triniaeth deg a pharch at bawb.

Rydym wedi ymrwymo i adeiladu ar ymddygiad a sgiliau cadarnhaol perthnasoedd iach. Byddwn yn cefnogi dysgwyr i ddatblygu empathi, caredigrwydd a thosturi tuag at ei gilydd a'u grymuso gyda'r hyder i fanteisio ar y cymorth sydd ar gael os ydynt yn pryderu am eu diogelwch eu hunain neu ddiogelwch pobl eraill.

Bydd dysgwyr yn cael eu cefnogi i ddeall newid a gwrthdaro a chydnabod effaith y rhain ar berthnasoedd, a lle bo'n briodol yn ceisio cymorth a chefnogaeth. Byddant yn cael eu cefnogi i ddeall bod arfer eu hawl i fod yn rhydd o bob math o wahaniaethu, trais, camdriniaeth ac esgeulustod yn cael ei alluogi gan oedolion dibynadwy a all gefnogi eu diogelwch. Mae hyn yn cynnwys drwy nifer o amddiffyniadau cyfreithiol sy'n bodoli i bawb. Mae cyfraith trosedd yn gwneud ymddygiadau o'r fath yn anghyfreithlon ac mae sancsiynau troseddol i'r rhai a geir yn euog o gyflawni troseddau o'r fath. Bydd dysgwyr yn datblygu dealltwriaeth o natur gymdeithasol, emosiynol, corfforol a chyfreithiol ac effaith ymddygiad niweidiol, gan gynnwys yr holl fwlio, a bwlio ar sail LGBTQ+, trais rhywiol a thrais ar sail y rhywiau mewn ystod o gyd-destunau, gan gynnwys ar-lein.

	Enw	**Llofnod**	**Dyddiad**
Cadeirydd y Llywodraethwyr	Mr Tudur Jones		Tachwedd 2022
Pennaeth	Mrs Laurel Davies		Tachwedd 2022

Dyddiad Adolygu Tachwedd 2023